



Bwletin GwE



Diolch Ysgolion Thank You Schools



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Llythyr gan GwE a'r Awdurdodau Lleol

Croeso yn ôl i dymor newydd a gobeithio'ch bod wedi cael cyfle i ymlacio dros y gwyliau.

Cyn y Pasg, cawsom drafodaethau ymhob Awdurdod Lleol i wrando ar farn nifer o Arweinwyr parthed dysgu proffesiynol i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Dywedoch wrthym eich bod yn:

- gweld pwysigrwydd y trafodaethau parhaus 3-16 a gynigir yn y rhaglen hon;
- awyddus i gynnal y momentwm, er yn cydnabod bod amseru hyn yn anodd;
- awyddus i gydweithio â GwE i ymgysylltu a gweithio gydag arbenigwyr cwricwlwm allanol lle bo hynny'n briodol;
- cydnabod y bydd hyblygrwydd y rhaglen hon yn allweddol i chi allu ymgysylltu.

Mae dod o hyd i gydbwysedd i ddiwallu'r holl anghenion yma'n heriol, gan ein bod yn cydnabod y gwahanol ofynion sydd ar bob sector. Fodd bynnag, y dasg gyntaf yw sicrhau bod gan bob sefydliad gynllun neu fap rhwng nawr a gweithredu'r cwricwlwm yn 2022. Byddwn yn eich cefnogi trwy'r daith hon at 2022. Isod ceir amlinelliad o amserlen ddiwygiedig y cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru:

21 Ebrill - 28 Mai	<u>Arweinyddiaeth</u> – Cynllunio 'Y Daith tuag at 2022', cyfle i lunio cynllun gweithredu sy'n cynnwys cerrig milltir penodol.	Clwstwr
	<u>Casgliad o bapurau procio</u> – Gweminar	Agored i bawb
	<u>Cynllunio ar gyfer diwygio'r Cwricwlwm</u> Sesiwn 1 – Gweminar i edrych ar fframwaith Cwricwlwm i Gymru	Agored i bawb
7 Mehefin - 9 Gorffennaf	<u>Datblygu gweledigaeth a rennir</u>	Clwstwr
	<u>Cynllunio ar gyfer diwygio'r Cwricwlwm</u> Sesiwn 2	Clwstwr
	<u>Cynllunio ar gyfer diwygio'r Cwricwlwm</u> Sesiwn 3	Clwstwr
	<u>Creu amser a lle ar gyfer Dysgu Proffesiynol</u> – Gweminar	Agored i bawb
	<u>Arwain Addysgeg</u> – Gweminar	Agored i bawb

Mae trosolwg manylach o'r cynnig wedi'i atodi [yma](#), ond os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â naill ai Arweinydd Craidd eich Awdurdod Lleol neu eich YCG cyswllt.



Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

21/04/2021 - 28/05/2021

DYDDIAD

CYFRWNG

ANG-Gweithdy Diwrnod 3: Asesu ar gyfer Dysgu - prosiect Shirley Clarke

25/05/2021

Cymraeg

ANG-Gweithdy Diwrnod 3: Asesu ar gyfer Dysgu - prosiect Shirley Clarke

26/05/2021

Saesneg

ANG-Gweithdy Diwrnod 3: Asesu ar gyfer Dysgu - prosiect Shirley Clarke

27/05/2021

Dwyieithog

ANG-Gweithdy Diwrnod 3b: Cymhwysedd Digidol i ANG

27/05/2021

Cymraeg

ANG-Gweithdy Diwrnod 3b: Cymhwysedd Digidol i ANG

28/05/2021

Saesneg


Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Mae **Cylch 3** y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym Medi 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **18 Mehefin 2021**.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a'r dull ymgeisio.

Ceir rhagor o fanylion yn y [fideo](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Newyddlen y Primary Science Teaching Trust i Ysgolion GwE



TYMOR Y GWANWYN

Mae'r Primary Science Teaching Trust (PSTT) wrthi'n gweithio gydag amryw o ysgolion cynradd ar draws Gogledd Cymru i wella safonau gwyddoniaeth. Mae Mentor Rhanbarthol PSTT Gogledd Cymru, [Kathy Schofield](#), yn cefnogi ysgolion i wella ansawdd y cynllunio ar gyfer y cwricwlwm, ac yn cynghori athrawon ar addysgeg effeithiol mewn gwyddoniaeth. PSTT sydd yn ariannu'r cymorth hwn yn llawn, ac mae'n agored i unrhyw un o ysgolion cynradd GwE. Gofynnir yn garedig i chi gysylltu â [Kathy](#) os oes gennych unrhyw gwestiynau am wyddoniaeth gynradd (manyion cyswllt isod). Mae PSTT hefyd yn cynnig adnoddau ar-lein a dolenni i gyfluoedd cyllido a hynny mewn newyddlen dymhorol i athrawon ar draws y DU.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen y newyddlen.

Adnoddau STEM

Ydych chi'n chwilio am ffordd gyflym a hawdd o gael gwybod am adnoddau am ddim i'ch cefnogi i addysgu gwyddoniaeth a thechnoleg? Mae GwE yn gweithio gyda STEMpowered Learning i roi fersiwn ddwyieithog i ysgolion o'r diweddariad rheolaidd hwn am adnoddau. Cofrestrwch ar gyfer ein taenlen fisol am ddim yma: <http://eepurl.com/dMy9VQ>



Hyfforddiant Proffesiynol ar Addysg Ariannol

Gwahoddir pob ymarferydd sydd yn gweithio gyda dysgwyr 9 i 12 oed i gymryd rhan ym mhrosiect Braenaru Cymru. Bwriad y prosiect yw rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu'n broffesiynol er mwyn cefnogi gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eu dysgwyr ym meysydd allweddol addysg ariannol. Ariennir y prosiect gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau ac fe'i gyflwynir gan Young Money gyda chymorth GwE dros dymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021. Darperir hyfforddiant, adnoddau a chymorth parhaus yn rhad ac am ddim i bawb a fydd yn cymryd rhan, a thelir costau llanw hefyd. Am fwy o wybodaeth, cliciwch [yma](#)

Dyfodol Byd-eang GwE - ITM / Ieithoedd Rhyngwladol



SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD

- Institut Français**

Mae'r dyddiad cau i ysgolion gymryd rhan yng Nghystadleuaeth [Fideo Pop Ffrangeg 2021](#) wedi'i ymestyn i ddydd **Gwener 30 Ebrill, 23:59!**

- Routes Cymru:**

Adnoddau addysgu:

www.worldoflanguages.co.uk : gêm am ddim sy'n cynnwys naw gweithgaredd er mwyn datlunio ieithoedd y byd, sut maent yn cysylltu â'i gilydd a sut mae geiriau na ellir eu cyfieithu yn rhan annatod o ddiwylliant.

SECTOR CYNRADD

Dysgu proffesiynol

- Languagenut: Gweminar**

19 Ebrill am 4pm Manteisio i'r eithaf ar Languagenut Cynradd/Elfenol [Cliciwch yma i gofrestru.](#)

SECTOR UWCHRADD

Routes Cymru: Safon Uwch

- Dosbarthiadau Meistr UG/Uwch:**

Bydd *Routes Cymru* yn rhyddhau pedwar dosbarth meistr UG/Uwch ychwanegol i'r rhestr wreiddiol a gyhoeddwyd . Gallwch gofrestru ar gyfer Dosbarth Meistr ar 'La Rafle', 'Das Pferd auf dem Balkon', 'La Classe (Entre les murs)' a 'Como agua para chocolate' ar ein gwefan: [Digwyddiadau – Llwybrau at Ieithoedd Cymru Routes into Languages Cymru.](#)

- Adnoddau Dysgu**

Cambridge Collaborative A-level Resources for Languages (CCARL): Cyfres o fideos byrion yn yr iaith darged ar destunau Ffrangeg ac Almaeneg Safon Uwch megis *La Haine*, *Kiffe kiffe demain*, *Das Leben der Anderen* a *Barbara*. **Mae'r adnoddau ar gael ar eu sianel YouTube**

- Mentora ITM : Adnoddau CA3+**

Prifysgolion <https://mflmentoring.padlet.org/mflmentoring/prifysgolion>

Sesiynau Blasu <https://mflmentoring.padlet.org/mflmentoring/SesiynauBlasu>

Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Bydd **Kaydee Owen** (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

Trefnwch amser un i un ar-lein: <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

• 10 Mai • 8 Mehefin

I gael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuo hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwyliwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).



Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN)



Drwy Lywodraeth Cymru, mae hyfforddiant a ddatblygwyd gan Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) bellach ar gael i holl uwch dimau arweinyddiaeth ysgolion Gogledd Cymru. Bydd 'Supporting Schools in Challenging Racism'/'Cefnogi Ysgolion i Herio Hiliaeth' yn eich helpu chi i ddatblygu gallu staff a myfyrwyr i weithio tuag at gyflawni'r nod o oddef dim hiliaeth mewn addysg yng Nghymru.

Bwriadwyd i'r hyfforddiant fod wyneb yn wyneb, yn hyfforddi a datblygu'r aelodau ond gyda chyfyngiadau COVID-19 bu'n rhaid i'r Rhwydwaith ddarparu'r adnodd ar-lein.

Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro i:

- Feithrin hyder i adnabod a delio gydag agweddau hiliol
- Gwella gallu athrawon a rheolwyr addysg i alluogi eu myfyrwyr i adnabod a herio hiliaeth.
- Rhoi modd i athrawon a rheolwyr gorffori cydraddoldeb hiliol yn y cwricwlwm.

Am fwy o wybodaeth ac i fynd at yr hyfforddiant, [cliciwch yma](#).

Beth sydd yn newid gydag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)?

Er mwyn cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i ymgysylltu a chyfathrebu â rhieni ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r daflen wybodaeth [hon](#).

Asesiadau Personol

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gwybodaeth hanfodol am asesiadau personol yn 2020/2021

- Bydd y gofyniad i gynnal asesiadau personol Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen ar sail 'ymdrech resymol' yn parhau am weddill y flwyddyn ysgol hon.
- Mae hyn yn gosod dyletswydd ar ysgolion i wneud eu gorau glas i gynnal asesiadau ar bob dysgwr perthnasol **lle bo'n ymarferol gwneud hynny**, a chan ystyried yr **hyblygrwydd mwy o ran datgymhwyso**, gan gynnwys ar sail lles, fel y mae [adendwm pwysig i'r llawlyfr gweinyddu](#) yn ei nodi.
- Mae defnyddio asesiadau personol i gael gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr er mwyn eu cefnogi o ran eu hanghenion a'u cynnydd yn **rhan o'r canllawiau dysgu diwygiedig i ysgolion** o 15 Mawrth.
- Gellir trefnu asesiadau ar yr adeg sydd fwyaf priodol i ysgolion. Mae asesiadau ymgyfarwyddo ar gael i ddysgwyr eu defnyddio ar unrhyw adeg.
- Mae'r **adroddiadau ar yr asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol)**, sydd ar gael y diwrnod ar ôl yr asesiad, yn cynnwys adborth ar sgiliau a chynnydd, ynghyd â sgorau sydd wedi'u safoni yn ôl oedran.
- Mae'r adborth ar sgiliau yn dilyn yr asesiadau Darllen ar gael y diwrnod ar ôl yr asesiad. Bydd y **sgorau Darllen a fydd wedi'u safoni yn ôl oedran** ar gael erbyn dechrau tymor yr hydref os bydd nifer digonol o ddysgwyr yn cymryd yr asesiad Darllen cyn diwedd y flwyddyn ysgol.
- Gofynnir i ysgolion ddefnyddio eu barn broffesiynol ynghylch yr amseru a'r dulliau mwyaf priodol o rannu adborth ac adroddiadau â rhieni a gofalwyr.
- Cynhelir profion treialu Rhifedd (Rhesymu) yn ystod tymor yr haf. Mae'r gwaith treialu yn agored i unrhyw ysgol sydd am gymryd rhan. Ni fydd asesiadau rhesymu yn statudol nes 2021/22.
- **Ni fydd unrhyw broffion papur statudol pellach.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch sut i gael gafael ar adroddiadau neu amserlennu asesiadau, gallwch gysylltu â'r ddesg gymorth ar gyfer asesiadau ar 029 2026 5099 neu cymorth@asesiadaupersonol.cymru

Defnyddio'r adroddiadau ar asesiadau i gefnogi'r addysgu

- Diben yr asesiadau personol yw darparu dealltwriaeth o sgiliau dysgwyr a chefnogi cynnydd unigolion. Bydd amrywiol adroddiadau yn eich helpu gyda'r gwaith cynllunio.
- Mae'r **adroddiadau ar yr asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol)**, sydd ar gael y diwrnod ar ôl yr asesiad, yn cynnwys adborth ar sgiliau a chynnydd, ynghyd â sgorau sydd wedi'u safoni yn ôl oedran.
- Mae'r adborth ar sgiliau yn dilyn yr asesiadau Darllen ar gael y diwrnod ar ôl yr asesiad. Bydd y **sgorau Darllen a fydd wedi'u safoni yn ôl oedran** ar gael erbyn dechrau tymor yr hydref os bydd nifer digonol o ddysgwyr yn cymryd yr asesiad Darllen cyn diwedd y flwyddyn ysgol.
- Mae adroddiadau ar gyfer dosbarthiadau a grwpiau blwyddyn yn dangos **proffil y grŵp o ran cyrhaeddiad** mewn rhifedd neu ddarllen, a hefyd yn dangos **cryfderau cymharol y grŵp mewn gwahanol feysydd sgiliau**.
- Yn 2020/21, gofynnir i ysgolion ddefnyddio eu barn broffesiynol ynghylch yr amseru a'r dulliau mwyaf priodol o rannu adroddiadau â rhieni a gofawyr – gweler yr [adendwm pwysig i'r llawlyfr gweinyddu](#).
- Ar y wefan asesu, ceir **fideos cam wrth gam** ar ddefnyddio'r system, a **gweminarau** ar sut i fanteisio i'r eithaf ar adroddiadau. Bydd y gweminarau yn eich helpu i **ystyried sut y gallwch ddefnyddio'r adborth ar yr asesiadau** a'r adroddiadau cynnydd i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch sut i gael gafael ar adroddiadau neu amserlennu asesiadau, gallwch gysylltu â'r ddesg gymorth ar gyfer asesiadau ar 029 2026 5099 neu cymorth@asesiadaupersonol.cymru.

CBAC: Asesiadau Personol - Deunyddiau Cefnogi a Dysgu Proffesiynol

Mae CBAC, sy'n gweithio mewn partneriaeth ag AlphaPlus ar ran Llywodraeth Cymru, wedi datblygu cyfres o ddeunyddiau dysgu proffesiynol i gefnogi ysgolion ac athrawon wrth iddynt ddefnyddio'r Asesiadau Personol.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Sefydlu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol

Mae'r [dull ysgol gyfan](#) yn ymwneud â chefnogi lles emosiynol a meddyliol da drwy sefydlu cydberthnasau cryfach:

- rhyngoch chi a'ch athrawon; a
- rhwng rhieni, teuluoedd, gofawyr, ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r ysgol

Mae ein fframwaith statudol newydd yn cefnogi pawb i sicrhau bod iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol pob dysgwr ac aelod staff wrth wraidd pob ysgol.

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Darpariaeth Mewn Cymeriad

[Ffilm fer am hanes ein hanthem genedlaethol](#)

Dyma nodyn i gyhoeddi bod ffilm fer am hanes *Hen Wlad fy Nhadau* a gynhyrchwyd mewn partneriaeth efo Cadw nawr yn fyw ac ar gael ar wefan Cadw sef <https://cadw.llyw.cymru/dysgu>. Mae fersiynau Saesneg a BSL hefyd ar gael ar sianel YouTube Cadw, sydd ar gael [yma](#).

[Lansio Pecyn Ffilm Fer a Gweithdy Mewn Cymeriad](#)

Gan nad yw hi'n bosib ymuno â chi yn yr ysgol, dyma gyfle i ddod a hanes yn fyw yn eich dosbarth mewn ffordd rithiol! Mwynhewch wyllo ffilm fer, oddeutu chwarter awr o hyd, am gymeriad o hanes Cymru cyn cymryd rhan mewn gweithdy rithiol, 45 munud o hyd, a fydd yn archwilio byd y cymeriad efo'r plant.

Mae mwy o fanylion, gan gynnwys rhestr gweithdai, ar ein gwefan - [Cliciwch yma ar gyfer gweithdai rhithiol Mewn Cymeriad](#)



Cystadleuaeth Technocamps



Mae ein [cystadleuaeth newydd](#), mewn partneriaeth efo Energy Saving Trust a NEST, yn gofyn i ddisgyblion ddylunio eu gêm eu hunain, gan ddefnyddio unrhyw feddalwedd rhaglennu, a fyddai'n gwneud tŷ yn fwy eco-gyfeillgar.

Ymunwch â'n gweithdy gwybodaeth ar **29 Ebrill 2021** am ragor o wybodaeth ac i glywed awgrymiadau a allai eich helpu i ennill y wobwr fawr!

Bydd y gêm fuddugol yn cael ei chyhoeddi ar wefan [Energy Saving Trust](#) a bydd yr enillydd yn derbyn **£100**, a **£2,000** i'w ysgol. Bydd yr ail orau yn derbyn **£50**, a **£1,000** i'w ysgol, a bydd yr unigolyn neu'r tîm sy'n dod yn drydydd yn ennill **£25**, a **£500** i'w ysgol.

Bydd yr holl fanylion yn y gweithdy gwybodaeth **ddydd iau 29 Ebrill**.

Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan gofrestru cyn cystadlu. [Ewch yma i gofrestru am ddim](#)

Cylchlythyrau Gweld Gwyddoniaeth




Mae [cylchlythyrau Gweld Gwyddoniaeth](#) yn llawn gwybodaeth STEM i athrawon ledled Cymru, gyda fersiynau ar wahân ar gyfer Cynradd ac Uwchradd. Darganfyddwch sut y gallwch chi gyfoethogi profiad eich disgyblion o STEM trwy wneud cais i Lysgennad STEM ymweld yn rhithiol â'ch ystafell ddosbarth, am ddim. Mae dros 2,000 o Lysgenhadon STEM yng Nghymru felly rydym ni'n siŵr o allu eich rhoi chi mewn cysylltiad ag arbenigwr i gyd-fynd â'ch thema chi! Hefyd yn y Cylchlythyrau, cewch wybodaeth am weithdai wedi'u hariannu sydd ar gael i ysgolion, digwyddiadau sy'n addas ar gyfer athrawon a disgyblion, cystadlaethau a manylion grantiau y mae ysgolion Cymru yn gymwys i wneud cais amdanynt. Yr hanner tymor hwn, darllenwch am [weithdai Cemeg COVID am ddim](#) ar gyfer plant blynyddoedd 5 i 8, [gweminarau athrawon](#) ar redeg prosiect CREST Dysgu Peiranyddol ac ysbrydolwch eich disgyblion i leihau eu defnydd o ynni gyda'r [gystadleuaeth Net Zero Superheroes](#). I dderbyn y Cylchlythyrau bob hanner tymor, cofrestrwch gyda STEM Learning [yma](#). I gael mwy o wybodaeth ar sut y gall Gweld Gwyddoniaeth gefnogi addysgu STEM yn eich ysgol, gweler ein [gwefan](#) neu cysylltwch ag ymholiadau@gweld-gwyddoniaeth.co.uk.



Llais Dros Gymru

MEITHRIN PARTNERIAETHAU GYDA'R ACADEMI GENEDLAETHOL AR GYFER ARWEINYDDIAETH ADDYSGOL

Ymunwch â Llais Dros Gymru, y sesiynau rhyngweithiol ar-lein newydd a gynlluniwyd ar gyfer arweinwyr ysgolion mewn rolau arweinyddiaeth uwch yng Nghymru. Cewch gipolwg ar waith yr Academi Arweinyddiaeth, clywed oddi wrth Gymdeithion yr Academi sy'n gweithio yn y system, a chyfle i rannu eich meddyliau a'ch syniadau yn y sesiynau anffurfiol hyn, a fydd yn cynnwys cyflwyniadau a grwpiau trafod. Felly, ymunwch â'r Academi Arweinyddiaeth am 45munud a helpwch i unio dyfodol arweinyddiaeth yng Nghymru. Dyddiadau a manylion cofrestru ar gael [yma](#).



Sesiwn rhannu gwybodaeth am Ysgolion Cymunedol yng Nghymru

Ymunwch â'r digwyddiad ar-lein hwn sy'n cael ei gynnal gan y British Council.

Cyfle i glywed gan athrawon, elusennau ac arbenigwyr rhyngwladol am y Model Ysgolion Cymunedol sy'n cynnwys partneriaethau amlasiantaeth, ymgysylltu â theuluoedd ac iechyd a llesiant. Dydd Mawrth 27 Ebrill 15.30 – 17.30. Rhagor o wybodaeth a manylion cofrestru [yma](#).



"Mission Earth!": Cyfres Microsoft & Adobe Education

Dewch i ymuno ag Adobe a Microsoft yn eu gweminarau *Mission Earth* i feithrin sgiliau sy'n bwysig i fod yn barod am y dyfodol: creadigedd, cyfathrebu, cydweithio a meddwl cyfrifiadurol. Bydd y gweminarau yn cyfuno STEM â chreadigedd ac adrodd stori: caiff dysgwyr gyfle i ddysgu sut i godio o fewn Minecraft a chreu fideos neu dudalennau gwe efo Adobe Spark! Mae'r gweminarau i ddysgwyr cynradd ac uwchradd. Nid oes angen profiad, bydd Microsoft ac Adobe yn eich arwain chi yr holl ffordd! Cewch ddarllen mwy a chofrestru [yma](#).



Gwobrau Heddychwyr Ifanc 2021

A hoffech chi i'ch disgyblion ennill cydnabyddiaeth am fynegi'u gweledigaeth a'u barn am heddwch a dinasyddiaeth fyd-eang mewn digwyddiad rhyngwladol yng Nghymru?

Os felly, a wnewch chi eu hannog i ymgeisio am [Wobrau Heddychwyr Ifanc 2021](#)?

Mae **Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)** yn dathlu pobl ifanc sydd wedi cyfrannu at heddwch a dinasyddiaeth fyd-eang yn eu hysgol, eu cymuned leol neu'n fyd-eang mewn amrywiol ffyrdd. Rydym yn cydweithio ag **Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen** i gynnal **Seremoni Wobrwyo Heddychwyr Ifanc ar-lein ar Ddiwrnod Heddwch, 9 Gorffennaf** lle bydd pobl ifanc yn rhannu'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni a derbyn tystysgrif a wobwr.

Am fanylion pellach, ewch at Wefan y WCIA [yma](#).

Felly, beth ddylwn i ei wneud yn awr?

Annog cynifer o ddisgyblion / pobl ifanc ag y bo modd i roi cais i mewn am wobwr!

Gall pobl ifanc unigol neu grwpiau rhwng 5 a 25 oed gyflwyno cais o dan y [gwahanol gategoriau](#), yn Saesneg neu yn Gymraeg. **Sylwch nad yw'r gwaith yn gorfod bod yn rhywbeth newydd.** Gall gynnwys prosiectau mae eich ysgol wedi bod yn **gweithio arnynt** – e.e. fel rhan o'r broses o ddod yn [Ysgol Heddwch](#).

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 11 Mehefin! Anfonwch geisiadau atom gan ddefnyddio'r ffurflen y gellir ei lawrlwytho o wefan y WCIA [yma](#).

Edrychwn ymlaen at ddathlu cyflawniadau disgyblion o'ch ysgol / grŵp ieuencid / coleg **ar 9 Gorffennaf!** Yn y cyfamser, os oes gennych gwestiynau, cofiwch gysylltu â'r Cydlynnydd Addysg Heddwch trwy anfon e-bost at: janeharries@wcia.org.uk.



post@gwegogledd.cymru

